Comisiynwyr yng Nghymru

06/02/2013

Nid oes gennym restr ddiffiniol sy'n nodi faint o Gomisiynwyr sydd yng Nghymru, ond gallwn ddarparu peth gwybodaeth ariannol ynglŷn â'r Comisiynwyr hynny sy'n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru). Nid yw rhai o'r Comisiynwyr yng Nghymru yn rhan o'r trefniadau datganoledig, e.e. y Comisiynydd Gwybodaeth, ac nid ydynt yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y canlynol eu hariannu gan Lywodraeth Cymru:

Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru 3 Chomisiynydd Coedwigaeth. Mae ein dogfen ym mis Ionawr 2013, Adroddiad Dilynol ar Weithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn nodi hyn: "Yn 2010-11, cynhyrchodd CCC £14.13 miliwn o werthu pren. Cafodd y rhan fwyaf o'i gostau o £50 miliwn a oedd yn weddill gan Lywodraeth Cymru, gyda rhywfaint o arian yn dod o gynlluniau grant Ewropeaidd."

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cadeirio Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCCC) sy'n cynnwys pedwar Comisiynydd Cynulliad arall. Caiff CCCC ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru (h.y. drwy grant bloc Cymru i bob pwrpas). Caiff Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ariannu gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dyma ddolen sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn ag ariannu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, yn cynnwys y pedwar sydd yng Nghymru http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-finance/

Hyd y gwyddom, nid oes gennym wybodaeth gofnodedig ynglŷn â sut yr ariennir unrhyw Gomisiynwyr eraill.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw gwestiynau

Yn gywir

Swyddfa Archwilio Cymru